# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-02- 06(p.1)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 25 Ionawr 2006 |
| **Amser:** | 9.30am tan 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

### Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Camddefnyddio Sylweddau - Gwasanaethau Triniaeth

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn hysbysu'r Pwyllgor am yr adroddiad terfynol ar yr Adolygiad Polisi Camddefnyddio Sylweddau. Bydd Aelodau'n cofio eu bod wedi cytuno i ganolbwyntio ar wasanaethau triniaeth.

### Cefndir

2. Mae'r adroddiad terfynol yn Atodiad 1. Bydd Aelodau'n cofio trafod yr adroddiad interim a chytuno arno yn y cyfarfod ar 23 Mehefin 2005. Mae'r adroddiad hwnnw'n ffurfio pennod 1 - 7 yr adroddiad terfynol. Yn unol â dymuniad y Pwyllgor, gwnaed y diwygiadau canlynol ac anfonwyd y papur diwygiedig at Aelodau ym mis Gorffennaf er gwybodaeth.

Cadarnhau argymhelliad 12 i gynnwys adroddiadau rheolaidd

Cyflwyno argymhelliad 13 newydd yn cwmpasu'r pwynt am feddygon teulu'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau triniaeth yn eu rôl fel 'ceidwaid y porth'. Ychwanegwyd y mater hwn at y testun hefyd.

Yn argymhelliad 14, cyfeirio at y sector gwirfoddol, y sector statudol a sectorau eraill.

Cafodd argymhelliad 16 ei aileirio er mwyn eglurder.

Argymhelliad 17 newydd i'r Pwyllgor edrych yn fanwl ar rôl meddygon teulu o ran cynnig triniaeth ar

gyfer pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau / cynlluniau gofal ar y cyd

Cafodd argymhelliad 29 ei aileirio i gynnwys y gair 'barriers'.

3. Gwnaed gwaith pellach gan y Pwyllgor i'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau triniaeth yn ystod tymor yr hydref 2005. Mae pennod 8 yn cofnodi'r dystiolaeth a dderbyniwyd ac yn gwneud 5 argymhelliad.

## Argymhelliad

4. Bod y Pwyllgor yn:

Ystyried yr adroddiad ac yn cytuno arno,

Nodi y bydd yr Adroddiad yn destun dadl yn y Cyfarfod Llawn pan gaiff amser ei neilltuo.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**Ionawr 2005**